



Disgrifiad o'r Swydd

| | |
|---------------------------|---|
| Teitl y swydd: | Rheolwr Gwirfoddoli (dros gyfnod mamolaeth) |
| Yn atebol i: | Pennaeth Cymorth |
| Grŵp/Grwpiau: | Cymorth, Arweinyddiaeth, Llais |
| Gweithgareddau: | Gwirfoddoli, Datblygu Sgiliau a Gwybodaeth, Partneriaethau Strategol; Polisi, Mewnwelediadau, Cyfathrebu |
| Cyflog: | Gradd D CGGC (£34,304 yn cynyddu i £36,199 y flwyddyn ar ôl cwblhau cyfnod prawf llwyddiannus) |
| Lleoliad: | Mae gan CGGC bolisi gweithio'n hyblyg ar waith, sy'n golygu y gall ein pobl weithio cyfran o'u hamser yn ein swyddfeydd neu o bell (gan gynnwys gartref). Rydyn ni'n fudiad Cymru gyfan gyda chanolfannau swyddfa yn Abergele, Aberystwyth a Chaerdydd y gall staff eu defnyddio. Bydd angen mynychu rhai digwyddiadau staff a galwadau gwaith penodol yn ein swyddfeydd. |
| Gwyliau Blyneddol: | 25 diwrnod y flwyddyn, ynghyd â gwyliau banc, a phum diwrnod drwy ddisgresiwn (pro rata) |
| Teithio: | Ffafirir defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus; pan na fydd hyn yn gyfleus, caiff staff ddefnyddio'u cerbydau eu hunain neu ddefnyddio'r system rhentu ceir. Telir |

cyfraddau fesul milltir yn unol â'r cyfraddau a argymhellir gan Gyllid y Wlad

Oriau: 35 awr yr wythnos; hyblyg.

Pensiwn: Bydd 9% o gyflog blynyddol y swydd yn cyfrannu at gynllun pensiwn cymeradwy CGGC.

Sgiliau iaith: Byddai sgiliau Cymraeg yn gaffaeliad i'r swydd.

DIBEN

Fel rheolwr o fewn y grŵp **Cymorth**, ac arweinydd gweithgareddau ar gyfer **Gwirfoddoli**, byddwch chi'n cydweithio â phartneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW) i ddatblygu a chyflwyno gwasanaeth gwirfoddoli CGGC i aelodau a mudiadau trydydd sector cenedlaethol, gan ddarparu rhaglen o wybodaeth, arweiniad, dysgu, digwyddiadau a rhwydweithiau dros Gymru gyfan. Byddwch chi hefyd yn arwain gwaith dylanwadu, ymgysylltu ac ymchwilio CGGC ar wirfoddoli, gan ddatblygu cydberthnasau positif â darpar rhanddeiliaid a rhanddeiliaid presennol.

Bydd y rôl hefyd yn:

- Meithrin a chynnal cydberthnasau a rhwydweithiau gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn datblygu arferion da a rhannu dysgu;
- Cyfrannu at y grŵp **Systemau** er mwyn sicrhau cynnwys o ansawdd uchel ar blatfformau digidol TSSW a hyrwyddo'r platfformau hyn, e.e. yr Hwb Gwybodaeth;
- Cyfrannu mewnwelediad ac arbenigedd ar wirfoddoli i'r Grŵp **Buddsoddi** o ran Grantiau Gwirfoddoli Cymru;
- Gweithio gyda Grŵp **Llais** CGGC i rannu mewnwelediadau arbenigol drwy gyfathrebiadau a pholisi er mwyn meithrin a galluogi Cymru i ddod yn genedl wirfoddoli.

PRIF DDYLETSWYDDAU

Gwirfoddoli

- Arwain y gwaith o reoli, datblygu, cyflwyno ac adrodd gweithgareddau gwirfoddoli CGGC, fel rhan o wasanaeth ledled Cymru gyda'r 19 o bartneriaid cyngor gwirfoddol sirol (CVC), gan gydlyn gwaith ar y cyd drwy hwylusiad y Rhwydwaith Ymarferwyr Gwirfoddoli a'i ysgrifenyddiaeth.
- Rhoi trosolwg, cymorth ac arweiniad i sicrhau bod cynllun strategol CGGC, y cynllun tîm, yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus, gan gynnwys rheoli staff neu dasgau lle y bo'n briodol
- Rheoli cyllidebau a ddyrannwyd a chwilio am gyfleoedd i gynyddu arbedion effeithlonrwydd a gwella gwerth am arian.
- Gweithio gyda'r Rheolwr Platfformau Digidol i reoli datblygiadau, gwaith hyrwyddo ac ymholiadau ynghylch y platfform Gwirfoddoli Cymru cenedlaethol, gan weithio mewn partneriaeth gyda chanolfannau gwirfoddoli lleol, a phartneriaid eraill fel y bo'n briodol, i gyflwyno gwasanaeth cydgysylltiedig dros Gymru gyfan.
- Gweithio'n agos gyda thîm Grantiau Gwirfoddoli Cymru CGGC i alluogi prosiectau gwirfoddoli o ansawdd uchel i gael eu cyflawni.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

- Cadw mewn cysylltiad â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys mudiadau gwirfoddoli ledled Cymru a'r DU; cadw'n gyfredol â gwaith polisi a datblygiadau strategol CGGC.
- Hwyluso rhwydweithiau gwirfoddoli gan gynnwys Rhwydwaith Gwirfoddoli Cymru (gan fwydo i mewn i Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (TSPC) a'r Grŵp Arweinyddiaeth Traws-sector Gwirfoddoli), Rhwydwaith Ieuenctid Gwirfoddoli Cymru a'r Rhwydwaith Ymarferwyr Gwirfoddoli.
- Cadw mewn cysylltiad â rhwydweithiau gwirfoddoli neu rwydweithiau sy'n ymwneud â gwirfoddoli a rhanddeiliaid allweddol perthnasol, yng Nghymru a ledled y DU
- Gweithio gyda'r Swyddog Rhwydweithiau Polisi i roi mewnwelediad strategol i Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi gwaith ar y polisi

gwirfoddoli, y Grŵp Arweinyddiaeth Traws-sector Gwirfoddoli, Grantiau Gwirfoddoli Cymru a Chronfeydd Strategol.

- Casglu tystiolaeth o effaith gweithgareddau CGGC, er enghraifft, drwy astudiaethau achos (a gesglir ar draws Grantiau Gwirfoddoli Cymru, rhwydweithiau gwirfoddoli, a defnyddwyr adnoddau gwirfoddoli), adborth rhanddeiliaid, arolygon barn a gwerthusiadau annibynnol.

Galluogi arferion da yn y maes gwirfoddoli

- Cydweithio â'r Grwpiau Systemau a Llais i gydlynu a rheoli gwybodaeth, canllawiau ac adnoddau gwirfoddoli (e.e. gwefan Gwirfoddoli Cymru), cynhyrchion (e.e. Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr), dysgu a datblygu a chanllawiau CGGC, gan gynnwys cynnwys gwefan CGGC, cyfryngau cymdeithasol, Hwb Gwybodaeth TSSW a rhaglenni hyfforddiant sy'n ymwneud â gwirfoddoli,
- Cydweithio â Grŵp Llais CGGC, partneriaid TSSW a phartneriaid eraill i gyflwyno cyfathrebiadau effeithiol sydd wedi'u cynllunio'n dda ac o ansawdd uchel, yn fewnol ac yn allanol, a fydd yn hysbysu, yn galluogi ac yn ysgogi arferion da mewn gwirfoddoli. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo a dathlu gwirfoddoli drwy ymgyrchoedd a digwyddiadau cenedlaethol, fel yr Wythnos Gwirfoddolwyr a Gwobrau Elusennau Cymru.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn. Efallai y bydd gofyn i ddeiliad y swydd gyflawni dyletswyddau ychwanegol o dro i dro neu yn ôl y gofyn, wrth i anghenion y gwasanaeth neu'r mudiad ddatblygu.

Gan fod CGGC yn cael ei gyllido'n rhannol gan Gyllid Ewropeaidd (drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru), gallai rhai o'ch dyletswyddau ofyn i chi dreulio amser yn gweithio ar draws y prosiectau hyn. Y cyfeirnodau WEFO ar gyfer y prosiectau hyn yw 80845, 80846, 80847 ac 80848.

MANYLEB YR UNIGOLYN

Mae'r canlynol yn *sgiliau hanfodol* (ni fydd ymgeiswyr nad ydynt yn gallu arddangos y rhain yn cael eu rhoi ar y rhestr fer)

1. Gwybodaeth a phrofiad o'r trydydd sector ac o'r amrywiaeth ac amrediad o weithgareddau gwirfoddoli.
2. Dealltwriaeth gadarn o egwyddorion rheoli gwirfoddolwyr o safon uchel, y cymhellion a'r rhwystrau i wirfoddoli a'r meysydd polisi perthnasol.
3. Profiad o reoli tîm perfformiad uchel a ffrydiau incwm lluosog er mwyn cyflawni blaenoriaethau allweddol o fewn cyllideb ac amserlen.
4. Profiad blaenorol o reoli ffrydiau gwaith a/neu brosiectau lluosog, gan gynnwys darpariaeth trydydd parti.
5. Profiad amlwg o hwyluso rhwydweithiau, a meithrin a chynnal cydberthnasau â rhanddeiliaid allweddol ar lefel strategol a gweithredol.
6. Gallu ysbrydoli, hysbysu, egluro neu ddarbwylllo drwy gyfathrebiadau effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig.
7. Gallu profedig i gasglu ac amgyffred gwybodaeth o ffynonellau lluosog, gan gynnwys gwaith ymchwil, polisi ac adborth rhanddeiliaid, er mwyn cyflwyno cynigion eglur.
8. Ymrwymiad i ddiben, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant CGGC.
9. Gallu defnyddio'r pecyn Microsoft 365 yn bur dda a datblygu presenoldeb effeithiol ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae'r canlynol yn *sgiliau allweddol* (mae angen y sgiliau hyn ar gyfer y rôl, ond gellid eu hennill yn y swydd neu drwy gael hyfforddiant o fewn 6 mis i'r penodiad)

1. Gwybodaeth ddigonol am y Safon Ansawdd Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.
2. Gallu defnyddio system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) CGGC.

Mae'r canlynol yn *sgiliau dymunol* (mae'r sgiliau hyn yn fanteisiol a byddent yn cyfoethogi'r cais)

1. Byddai sgiliau yn y Gymraeg yn ddefnyddiol yn y swydd; disgwylir i'r ymgeisydd a benodir ddangos ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg a chefnogi cydymffurfiaeth â nhw.



Mae'r swydd hon wedi'i chyllido'n rhannol gan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.
Swydd-ddisgrifiad CgGC Mawrth 2023